Page

# Enwebwch eich ‘arwyr’ treftadaeth am wobr Loteri Genedlaethol

08/07/2020




2019's National Lottery Award winners

Mae'r Loteri Genedlaethol yn chwilio am arwyr y cyfyngiadau symud yn y DU fel rhan o wobrau'r Loteri Genedlaethol eleni – pwy fyddwch chi'n eu henwebu?

Ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi gwneud ymdrech arwrol i gefnogi treftadaeth o dan gyfyngiadau symud? Enwebwch nhw am wobr Loteri Genedlaethol!

Eleni, bydd y Loteri Genedlaethol yn chwilio am brosiectau mwyaf poblogaidd yn y DU, ac am y tro cyntaf erioed, bydd yn anrhydeddu unigolion sydd wedi cael effaith anhygoel yn eu cymuned, yn enwedig y rhai sydd wedi addasu yn ystod pandemig COVID-19.

> "Yn awr, yn fwy nag erioed, mae pobl wedi dwyn ynghyd, ac mae unigolion wedi camu i'r adwy i gyflawni gweithredoedd ysbrydoledig ac ymdrechion eithriadol i helpu cymunedau mewn dinasoedd, trefi a phentrefi ar hyd a lled y wlad."
>
> Jonathan Tuchner, Cyfarwyddwr Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol

Bydd yr enillwyr yn derbyn gwobr ariannol o £3,000 i’w sefydliad a thlws gwobrau'r Loteri Genedlaethol.


Back from the Brink gyda'u gwobr Loteri Genedlaethol yn 2019 ar gyfer y prosiect treftadaeth gorau

## Cydnabod gweithredoedd ysbrydoledig

Mae Jonathan Tuchner o'r Loteri Genedlaethol yn annog pobl ar draws y DU i gyflwyno eu henwebiadau. Dywedodd: "yn awr, yn fwy nag erioed, mae pobl wedi uno, ac mae unigolion wedi camu i'r adwy i gyflawni gweithredoedd ysbrydoledig ac ymdrechion eithriadol i helpu cymunedau mewn dinasoedd, trefi a phentrefi ar hyd a lled y wlad.

"Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae hyd at £600 miliwn ar gael i gefnogi cymunedau ledled y DU yng nghanol argyfwng coronafeirws. Mae pobl wedi defnyddio arian y Loteri Genedlaethol mewn ffyrdd anhygoel yn ystod y cyfnod heriol yma. Rydym am eu hanrhydeddu fel rhan o wobrau'r Loteri Genedlaethol eleni."

## Sut i enwebu

Gellir gwneud enwebiadau ar draws saith categori, gan gynnwys treftadaeth. Bydd gwobr Arwr Ifanc Arbennig i rywun o dan 18 oed sydd wedi mynd y filltir ychwanegol yn eu sefydliad.

Er mwyn enwebu, trydarwch @LottoGoodCauses gyda'ch awgrymiadau neu ewch i wefan y Loteri Genedlaethol. Rhaid derbyn enwebiadau erbyn **hanner nos ar 19 Awst 2020.**



## rdeb hefyd mewn ...

## Conservation project Back from the Brink is Awards champion